



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 14.06.2016

Bro Myrddin yn Stadiwm y Principality, Caerdydd.

Roedd dydd Mawrth, Mai y 3ydd yn ddiwrnod hanesyddol i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin gan bod bechgyn blwyddyn 11, am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol, wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru. Cynhaliwyd y gêm yn Stadiwm y Principality a teithiodd 650 o ddisgyblion ac athrawon yr ysgol i gefnogi'r bechgyn. I gyrraedd y rownd derfynol roedd y bechgyn wedi curu timoedd ysgolion y Strade, Ystalyfera, Bishopston, Dyffryn Conwy a Threorci. Tîm ysgol Brynteg oedd ein gwrthwynebwyr yn y gêm derfynol.



Bu'r bechgyn canlynol yn rhan o'r garfan ar hyd y tymor: Harri Jones, Gruff Madoc-Jones, Osian Knott, Ben Rhys Jones, Tomos Jones, Tomos Griffiths, Che Thomas, Dafydd Millward, Iwan Lewis, Emyr Waters, Lewys Morgan, Rhodri Lewis, Sam Icke, Will Evans, Sion Wyn Jones, Will Thomas, Dafydd Walters, Caleb Williams, Harri Morgan, Sam Phillips, Iwan Owens, Jack Green, Tom Jones, Flynn Lewis, Jac Price, Brandon Thomas, Chris Evans, Mathew Glaze, Huw Butterworth ac Aled Davies. Hyfforddwyd hwy gan Mr Aled Griffiths, Mr Adrian Williams a Mr John Norgrove.


Ar y diwrnod, yn anffodus, colli bu hanes y tîm o 20 i 15. Cafwyd prynhawn i'w gofio a gwobrwywyd y bechgyn ar ddiwedd y dydd gan Rob Howley. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i'r canlynol am eu noddi yn y gystadleuaeth: Mr Brian Jones, Castell Howell; Cwmni bysiau Ffoshelyg; Charles Samms; Lorne Stewart; Martin Taffetsauffer; Thomas Glass a Dyfed Alarms.

Stwnsh - "Y Gemau Gwyllt"

Llongyfarchiadau i Harri Griffiths o flwyddyn 9 a gafodd ei ddewis i fynd i'r rownd derfynol yn y gyfres "Y Gemau Gwyllt" ar gyfer Stwnsh S4C yng Nghanolfan Plas Y Brenin yng Nghapel Curig ger yr Wyddfa.

Roedd Harri yn un o 6 o Gymru gyfan a fu'n wynebu'r senario 'Survival' a oedd yn cynnwys amrywiaeth o dasgau gwahanol, fel caiacio, gwersylla, dringo a nofio. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ym mis Medi. Da iawn ti Harri.

Rasys Mini Marathon Llundain 2016



Teithiodd tri deg chwech o athletwyr gorau ifanc Cymru i Lundain i redeg yn rasys Mini Marathon Llundain. Hon oedd y 14eg mlynedd yn olynol i dimau Ysgolion Cymru fynychu'r digwyddiad mawreddog hwn a gynhaliwyd dros 3 milltir olaf y cwrs lle y gwnaeth 2000 o blant cystadlu. Roedd yn gyfle i athletwyr Cymru i brofi'u hunain yn erbyn y gorau ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Roedd timau o 6 yn y categorïau o dan 13, 15, a 17 wedi cael eu dewis o berfformiadau dros gyfres o ddiwyddiadau trawsgwlad a gynhaliwyd dros y misoedd diwethaf.

Yn rhan o'r tîm roedd 2 aelod o Ysgol Bro Myrddin ac aelodau Harriers Caerfyrddin. Roedd Daisy Thompson yn 12fed (18.11) ac Iwan Glynn yn 20fed (16.57) yn y rasys o dan 13, ac yn helpu'r timau i orffen yn gyntaf a thrydydd. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Mabolgampau Bro Myrddin

Bu'r ysgol yn ffodus iawn i gael diwrnod sych a braf ar gyfer y mabolgampau eleni. Roedd cystadlu brwd rhwng unigolion a rhwng y llysoedd gyda nifer o berfformiadau unigol disglair. Hergest ddaeth yn fuddugol ar y diwrnod gyda sgôr o 492 yn ail gydag 470 o bwyntiau roedd Hengwrt, yn 3ydd gydag 397 o bwyntiau roedd Llwydiarth ac yn 4ydd gyda 394 roedd Peniarth .

Yn dilyn y drefn flynyddol rhoddwyd tlysau i'r pencampwyr o blith y merched a'r bechgyn a enillodd fwyaf o bwyntiau yn y cystadlaethau. Yr enillwyr unigol eleni oedd:-



BI 7 Merched- Betsan Thomas; Bechgyn – Liam Edwards

BI 8 Merched- Maddie Morgan a Hanna Lewis; Bechgyn –Iwan Glynn

BI 9 Merched- Eva Edwards; Bechgyn – Dylan Richards

BI 10 Merched- Molly James; Bechgyn - Harri Jones



Hanes Elin Wyn James a Phrosiect Gwirfoddoli Urdd Gobaith Cymru i Batagonia

Ym mis Hydref 2016 mae gen i'r fraint o fod yn rhan o grŵp Urdd Gobaith Cymru a fydd yn ymweld â Phatagonia, Yr Ariannin fel rhan o brosiect gwirfoddoli rhyngwladol. Yn ystod fy nghyfnod ym Mhatagonia byddaf yn gwneud pob math o waith gwirfoddol, gan gynnwys gwneud sesiynau gyda phlant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg yno, ymweld â thrigolion y Wladfa o dras Cymraeg, gweithio mewn ysgolion i blant difreintiedig a phlant gydag anghenion arbennig, cynorthwyo gyda phrosiectau cymunedol ac yn cynrychioli Cymru yn Eisteddfod Y Wladfa.

Fel rhan o'r ymdrech i godi arian ar gyfer y daith, rwyf wedi cynnal taith gerdded 28 milltir o Lanfihangel y

Pennant i'r Bala gan ddilyn llwybr Mari Jones, chwarae offerynnau yn y dref cyn Nadolig, gwerthu cacennau ynghyd a noson gyri llwyddiannus. Yn ogystal â hynny, mae nifer o fusnesau lleol wedi bod mor garedig â'm nodd i er mwyn sicrhau fy mod bellach, wedi cyrraedd y taged ariannol. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi fy nghefnogi. Rwy'n siŵr bydd y daith yn un fythgofiadwy.